Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Hen Golwyn
Canolfan Gymunedol Hen Golwyn
Green Hill
Hen Golwyn
LL29 9RR

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Hen Golwyn yng Nghanolfan Gymunedol Greenhill, Hen Golwyn, yn awdurdod lleol Conwy.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 26 o blant fesul sesiwn, a derbynnir plant o ddwy oed. Mae 20 o blant ar y gofrestr, yn amrywio o ran oedran o ddwy i dair oed a phedwar mis. Ar hyn o bryd, mae saith o blant yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir.

Daw'r mwyafrif o blant o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn siarad Cymraeg. Saesneg yw iaith gartref gweddill y plant. Adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Ar hyn o bryd, mae pedwar aelod o staff, yn cynnwys arweinydd y lleoliad a'i dirprwy. Mae pob aelod o staff yn meddu ar gymwysterau addas ac mae'r rhan fwyaf yn brofiadol yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd er Medi 2005.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2014 a chan Estyn yn Ebrill 2010.1

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae llawer o blant yn cyflawni safonau da yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu
- Mae pob plentyn yn ymgartrefu'n gyflym ac yn hapus yn y lleoliad
- Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol i blant ar draws yr holl feysydd dysgu
- Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant
- Ceir ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol
- Mae tu fewn yr adeilad wedi'i osod allan yn dda, yn ddeniadol ac yn ddiogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r arweinydd a'i dirprwy yn rhedeg y lleoliad yn dda o ddydd i ddydd
- Mae'r pwyllgor rheoli yn rhannu gweledigaeth gadarn ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd da yn yr ardal, ac yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer y lleoliad
- Mae ymarferwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd fel tîm
- Mae arweinwyr yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor
- Mae ystod dda o bartneriaethau effeithiol gan y lleoliad sy'n cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant
- Mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu yn yr awyr agored fel rhan o'u trefn arferol

A2 Gwella'r ffordd y mae ymarfewrwyr yn rheoli ymddygiad, yn enwedig yn ystod gweithgareddau grŵp mawr

A3 Cryfhau systemau asesu a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gwneud cynnydd ar draws yr holl feysydd dysgu

A4 Sicrhau bod effaith y cynllun gwella yn cael ei monitro'n rheolaidd er mwyn gwneud cynnydd da

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn cyflawni safonau da yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu. Maent yn gwneud cynnydd cyson o ran yr hyn maent yn gallu ei wneud ac yn gallu cofio pethau y maent wedi'i ddysgu'n flaenorol yn dda. Er enghraifft, maent yn gwybod hwiangerddi yn dda, fel 'Mi welais Jac y do', a gallant gofio stori 'Y dyn bach sinsir'.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus â'i gilydd ac yn datblygu dealltwriaeth dda o'r Gymraeg. Mae bron pob plentyn yn mwynhau gwrando ar storïau a chynhelir eu diddordeb am gyfnod amser addas; er enghraifft, gwrandawant yn dda ar stori 'Y tri mochyn bach'. Mae pob un o'r plant bron yn ymdrin â llyfrau yn ofalus. Maent yn dal y llyfr y ffordd iawn i fyny, ac yn troi'r tudalennau'n gywir. Mae llawer o blant yn siarad yn hyderus yn eu hiaith gartref am yr hyn y gallant ei weld yn y darluniau, er enghraifft enwi'r cymeriadau yn y stori. Mae llawer o blant yn adnabod eu henw eu hunain ar ffurf ysgrifenedig yn ystod amser cofrestru, ac mae ychydig ohonynt yn gallu adnabod enwau plant eraill. Defnyddia'r rhan fwyaf o blant ystod o offer gwneud marciau yn annibynnol gyda mwy a mwy o reolaeth. Er enghraifft, maent yn tynnu lluniau ohonyn nhw eu hunain a'u teuluoedd.

Mae bron pob un o'r plant yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn caneuon a rhigymau dysgu rhifau, ac mae llawer ohonynt yn ymuno gan gyfrif i fyny i 15 yn ystod cyfnodau cofrestru. Gall mwyafrif gyfrif yn hyderus i o leiaf wyth yn annibynnol yn Gymraeg a Saesneg. Mae llawer o blant yn didoli gwrthrychau cyfarwydd yn gywir mewn amrywiaeth o ffyrdd; er enghraifft, maent yn didoli ciwbiau jeli mewn grwpiau lliw. Gallant gymharu gwrthrychau yn ôl maint wrth ddewis pompomau i fynd ar gerdyn draig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gallu trin gwrthrychau bach yn dda, er enghraifft codi reis gyda'u bysedd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael digon o gyfle i ddatblygu'u medrau corfforol yn gyson. Mae ychydig o blant yn datrys problemau yn effeithlon. Er enghraifft, maent yn gweithio allan fod angen bag arall arnynt i ddal y dillad y maent yn mynd gyda nhw ar wyliau. Mae llawer o blant yn dangos medrau meddwl da, er enghraifft wrth drafod draig Tsieineaidd.

**Lles: Da**

Mae plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu yn gyflym a pharod, gan ddewis tasgau yn annibynnol. Dilynant y trefniadau arferol yn dda iawn, gan ymateb i awgrymiadau sy'n dynodi amserau newid drosodd. Mae bron pob un ohonynt yn hyderus, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae llawer o blant yn chwilfrydig ynglŷn ag adnoddau a phrofiadau newydd. Mae bron pob un ohonynt yn ffurfio perthnasoedd gweithio cadarnhaol â'r oedolion yn y grŵp, ac maent yn barod i ofyn am help pan fydd ei angen. Gall y rhan fwyaf o blant ganolbwyntio am gyfnodau amser addas, a dangosant ddyfalbarhad i gwblhau tasg. Er enghraifft, gweithiant yn galed i godi nwdls gyda gweill bwyta.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o blant yn dda. Yn achlysurol iawn, fodd bynnag, nid yw ychydig o blant yn gwrando'n dda yn ystod amserau grŵp. Mae'r rhan fwyaf o blant yn helpu i dacluso pan ofynnir iddynt wneud, ac maent yn falch i ymgymryd â chyfrifoldebau, fel bod yn 'helpwr heddiw'. Yn ystod amser byrbryd, mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos medrau cymdeithasol da. Dywed y rhan fwyaf 'diolch' heb gael eu cymell, ac maent yn ymwybodol o'r angen am hylendid da.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol i blant ar draws yr holl feysydd dysgu, yn seiliedig ar thema neu stori yn aml. Er enghraifft, fe wnaeth y ffocws diweddar ar y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ysgogi amrywiaeth o weithgareddau buddiol yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth a heriau newydd i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant yn nysgu'r plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais cadarn ar ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd plant. Er enghraifft, gwna ddefnydd cyson o gyfarwyddiadau ar gân a hwiangerddi i atgyfnerthu patrymau iaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymarferwyr yn nodi geirfa benodol i blant ddysgu. Mae ymarferwyr yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i blant ddysgu ac ymarfer eu medrau yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) syml, fel rheoli tegan y gellir ei raglennu. Maent hefyd yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ddatblygu medrau meddwl plant. Er enghraifft, mae plant yn rhoi rhesins mewn dŵr llonydd a dŵr pefriog ac yn pendroni dros yr adweithiau gwahanol.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod plant yn datblygu dealltwriaeth dda o ddiwylliant Cymru. Mae plant yn dysgu am Santes Dwynwen, yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn canu rhigymau traddodiadol, gan sicrhau eu bod yn dysgu am dreftadaeth genedlaethol. Maent hefyd yn dysgu am ddiwylliannau eraill mewn modd ystyrlon.

Mae'r lleoliad yn trefnu ymweliadau gwerthfawr â chanolfan addysg yr awdurdod lleol mewn parc cyfagos, yn ogystal â gwneud defnydd addas o gae lleol. Fodd bynnag, nid yw'n gwneud defnydd rheolaidd o'r ardal awyr agored yn y lleoliad. O ganlyniad, nid yw plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau corfforol.

**Addysgu: Digonol**

Mae dealltwriaeth dda gan ymarferwyr o bwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu drwy chwarae a chymryd rhan yn weithgar. Darparant weithgareddau amrywiol a diddorol sy'n datblygu chwilfrydedd plant ac yn cynnal eu diddordeb yn dda. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith da, yn annog ac yn cefnogi'r plant wrth iddynt ddatblygu'u medrau iaith a chyfathrebu. Maent yn datblygu'u medrau holi yn briodol i gynorthwyo dysgu plant. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer ymddygiad plant yn ystod gweithgareddau grŵp. O ganlyniad, nid yw ychydig o blant yn ymddwyn yn briodol.

Mae ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd yn ystod tasgau a arweinir gan oedolion. Maent yn dechrau casglu gwybodaeth am gyflawniadau plant ac yn nodi camau nesaf posibl yn eu dysgu. Gwna ymarferwyr ddefnydd mwyfwy effeithiol o lyfrynnau asesu unigol i sefydlu man cychwyn ar gyfer pob plentyn ac i gofnodi'u cynnydd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu yn systematig i gynllunio ar gyfer dilyniant yn nysgu'r plant.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i rieni fod yn rhan o ddysgu eu plant. Caiff gwybodaeth ddefnyddiol ei rhannu'n anffurfiol gan ymarferwyr ar ddiwedd pob sesiwn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae prosesau effeithiol ar waith gan y lleoliad i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant, yn cynnwys trefniadau sydd wedi'u sefydlu'n dda a set o reolau cytun. Caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd ynglŷn â'u bywydau a'u credoau eu hunain a rhai pobl eraill; er enghraifft, dysgant am ddathliadau mewn gwledydd eraill. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu synnwyr o syfrdan a rhyfeddod ynglŷn â'r byd, yn enwedig yn ystod ymweliadau â'r cae lleol ac â chanolfan addysg yr awdurdod lleol yn y parc cyfagos. Maent yn sicrhau bod plant yn datblygu'u gallu i weithio'n annibynnol a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd; er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i dacluso adnoddau'n ofalus ar ddiwedd y sesiwn. Mae ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac yn dechrau cynllunio'n briodol ar gyfer hyn. Darparant gyfleoedd buddiol i blant ddysgu am fyw'n iach. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac yn darparu byrbrydau iach.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ceir systemau addas i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol, ac mae'r lleoliad yn defnyddio cymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol fel bo'r gofyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn dangos gofal a chonsyrn tuag at bob plentyn, ac yn sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar weithgareddau. Maent hefyd yn annog plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac i ddysgu cydweithredu â'i gilydd yn eu chwarae. Mae nifer ddigonol o ymarferwyr â chymwysterau addas yn y lleoliad i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n olau braf ac yn groesawgar, a gwna'r lleoliad ddefnydd da o'r gofod sydd ar gael. Mae ymarferwyr yn defnyddio byrddau cludadwy a pharhaol yn dda i ddathlu gwaith plant ac i greu arddangosfeydd deniadol ac ysgogol i gyd-fynd â'u themâu. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau diddorol a phriodol i'r plant eu defnyddio, ac maent wedi'u trefnu'n dda ac yn hygyrch, er bod rhaid eu pacio i ffwrdd ar ddiwedd y rhan fwyaf o sesiynau. Fodd bynnag, nid ydynt yn gosod yr holl feysydd dysgu allan yn gyson. O ganlyniad, nid yw plant bob amser yn cael y cyfle i adeiladu ar ddysgu blaenorol yn briodol. Mae'r lleoliad yn dechrau datblygu ei ardal awyr agored ddiogel ac mae adnoddau priodol i blant eu defnyddio yno.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r siop leol a swyddfa'r post i ddysgu am ddefnyddio arian, a gwnânt ddefnydd da o gyfleusterau awyr agored lleol.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pwyllgor rheoli weledigaeth gadarn ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg o ansawdd da yn yr ardal. O ganlyniad, mae'r pwyllgor yn darparu cymorth effeithiol i'r lleoliad, gan weithio ochr yn ochr â'r arweinydd i sicrhau bod pawb yn gwneud ei orau. Er enghraifft, mae cadeirydd y pwyllgor yn cyfrannu'n weithredol at system effeithiol y lleoliad ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n helpu codi safonau a nodi anghenion datblygu staff. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod staff newydd yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wella'u hyder yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r arweinydd a'i dirprwy yn rheoli'r lleoliad yn dda. Gweithiant yn effeithiol â'i gilydd, gan rannu cyfrifoldeb am redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Gyda'i gilydd, maent yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau'n effeithlon, gan gyfathrebu â nhw'n anffurfiol ar ddechrau bob diwrnod. Mae'r arweinydd yn dangos cynlluniau ar fwrdd cludadwy, ac mae'r holl ymarferwyr yn ymgynghori â hwn i gadarnhau eu cyfrifoldebau os bydd angen. O ganlyniad, mae sesiynau'n rhedeg yn esmwyth, a gwneir defnydd effeithiol o'r holl oedolion.

Mae arweinydd y lleoliad yn talu sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn sicrhau bod ffocws cadarn ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Ceir diwylliant cadarn o gyfrifoldeb ar y cyd er mwyn cyflawni'r gorau i'r plant yn y lleoliad. Trwy broses briodol o hunanarfarnu, mae'r arweinydd a'i dirprwy yn nodi blaenoriaethau addas ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn sail i gynllun gwella defnyddiol, sy'n cynnwys amserlenni a meini prawf llwyddo priodol. Bydd swyddogion o'r pwyllgor yn cael copi o'r adolygiad ac yn cynnig sylwadau gwerthfawr. Caiff pob ymarferydd yn y lleoliad gyfle i gyfrannu at y broses hunanarfarnu trwy drafodaethau anffurfiol rheolaidd, a rhoddir ystyriaeth i farnau rhieni a gofalwyr. O ganlyniad, mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn rhan reolaidd o fywyd gweithio'r lleoliad.
Mae arfarniad defnyddiol o gynllun y llynedd yn dangos bod y broses yn arwain at welliannau buddiol. Erbyn hyn, er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwneud gwell defnydd o'r ardal leol ac yn sicrhau bod plant yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau yn cael eu monitro'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod amserlenni'n cael eu bodloni ac i olrhain cynnydd o ran mynd i'r afael â chamau gweithredu.

Mae ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor gan yr awdurdod lleol a chan swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod o bartneriaethau effeithiol gan y lleoliad sy'n cyfrannu'n dda at safonau a lles plant.

Ceir partneriaethau cadarn â rhieni. Mae’r lleoliad yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am weithgareddau ac am yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu drwy gyswllt anffurfiol dyddiol, hysbysfwrdd defnyddiol a ffotograffau sy’n cael eu harddangos mewn llyfrau yn y cyntedd. Mae’r arweinydd hefyd yn cysylltu â rhieni drwy negeseuon testun a negeseuon e-bost pan fydd yn briodol. Mae rhieni yn gwerthfawrogi’r lefel dda o gyfathrebu a’r perthnasoedd cadarnhaol sydd ganddynt â’r ymarferwyr. Mae hyn yn helpu plant i ymgartrefu’n dda yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau sefydledig â’r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol. Mae hyn yn hyrwyddo trosglwyddo hwylus i blant o’r lleoliad i’r cam nesaf yn eu haddysg. Hefyd, mae gan y lleoliad bartneriaeth gadarn â’r grŵp ‘Ti a Fi’ sy’n cyfrannu’n sylweddol at les plant a’u rhieni pan fydd plant yn symud i’r cylch chwarae.

Mae’r bartneriaeth adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu’r Mudiad Meithrin yn helpu sicrhau gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Gwna’r lleoliad ddefnydd effeithiol o staff ac adnoddau i gefnogi’r addysgu a’r dysgu yn dda. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod digon o staff â chymwysterau addas yn y lleoliad. Defnyddiant staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd. Mae ymarferwyr yn cael ystod addas o hyfforddiant buddiol a gwnânt y gorau o gyfleoedd i ddiweddaru ac adeiladu ar eu medrau. Mae’r lleoliad yn rhoi blaenoriaeth effeithiol i gyfleoedd hyfforddi er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn hyderus yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae arweinydd y lleoliad a swyddogion y pwyllgor yn sicrhau eu bod yn cadw golwg fanwl ar y gyllideb. Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad ac yn defnyddio cyllid yn effeithlon i sicrhau bod y grŵp yn parhau’n gynaliadwy.

O ystyried y deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |